ATODLEN 2

Addasiadau pan roddir cyfarwyddyd diogelwch gwladol

**Y weithdrefn ar ôl sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu achosion cyfunol.**

**16.** Mae rheoliad 48 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (4)—

"(4A) Nid yw paragraff (4) yn gymwys pan ystyriwyd tystiolaeth gaeedig.

(4B) Pan ystyriwyd tystiolaeth gaeedig—

(a) rhaid i'r person penodedig a'r asesydd, pan fo un wedi ei benodi, nodi mewn rhan ar wahân ("y rhan gaeedig") o'u hadroddiadau unrhyw ddisgrifiad o'r dystiolaeth honno ynghyd ag unrhyw gasgliadau neu argymhellion mewn perthynas â'r dystiolaeth honno; a

(b) pan fo asesydd wedi ei benodi, rhaid i'r person penodedig atodi'r rhan gaeedig o adroddiad yr asesydd i'r rhan gaeedig o adroddiad y person penodedig a rhaid iddo ddatgan yn y rhan gaeedig o'r adroddiad hwnnw i ba raddau y mae'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhan gaeedig o adroddiad yr asesydd a, phan fo'n anghytuno â'r asesydd, y rhesymau dros yr anghytuno hwnnw.";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ôl paragraff (9)—

"(9A) Nid yw paragraff (9) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn anghytuno â'r person penodedig ynghylch unrhyw fater o ffaith a grybwyllir mewn casgliad a gyrhaeddir gan y person penodedig mewn perthynas â mater y rhoddwyd tystiolaeth gaeedig mewn cysylltiad ag ef, neu yr ymddengys iddynt hwy ei fod yn berthnasol i gasgliad o'r fath.

(9B) Pan fo Gweinidogion Cymru yn anghytuno â'r person penodedig ynghylch unrhyw fater o ffaith a grybwyllir mewn casgliad a gyrhaeddir gan y person penodedig mewn perthynas â mater y rhoddwyd tystiolaeth gaeedig mewn cysylltiad ag ef, neu yr ymddengys iddynt hwy ei fod yn berthnasol i gasgliad o'r fath, rhaid iddynt gynnwys rhesymau Gweinidogion Cymru dros anghytuno oni bai—

(a) bod yr hysbysiad wedi ei gyfeirio at berson nad yw'n gynrychiolydd penodedig nac yn unrhyw berson a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch, neu'n unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch; a

(b) y byddai cynnwys y rhesymau yn datgelu unrhyw ran o'r dystiolaeth gaeedig."